

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Hysbysiad Preifatrwydd

GWASANAETHAU ETHOLIADOL

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards - Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop - Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Maria Litchfield - Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN Data.Protection@merthyr.gov.uk



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Crëwyd: 25 Mai 2019
Adran Gyfrifol: Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Cyfrifol: Ann Taylor
Cyfeiriad: CBSMT, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am sut mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau yn casglu a phrosesu eich data personol wrth gofrestru eich hawl i bleidleisio a gweinyddu etholiadau.

1. MANYLION CYSWLLT A HUNANIAETH Y RHEOLWR DATA

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data sydd wedi'i chynnwys yn y GDPR. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, y gellir dod o hyd i'w manylion ar ein gwefan. Pan fyddwn yn sôn am yr Adran, rydym yn cyfeirio at yr Adran Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau, sy'n gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn glir i chi pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data y gellir cysylltu ag ef gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad:	Tîm Llywodraethu Gwybodaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Canolfan Ddinesig Stryd y Castell Merthyr Tudful CF47 8AN	E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk Ffôn: 01685 725000 Ffacs: 01685 725060
------------	--	---

2. PA WYBODAETH RYDYM YN EI CHADW AMDANOCH CHI

Bydd yr Adran yn casglu, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol am unrhyw un 16 oed neu hŷn ac ymgeiswyr etholiad a'u hasiantau, y gellir eich adnabod ohonynt, gan gynnwys:

- Enw
- Cyfeiriad

- Dyddiad geni
- Cenedligrwydd
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Cyfeiriad E-bost
- Rhif ffôn
- Llofnod (ar gyfer pleidleiswyr absennol)
- Argyhoeddiad gwleidyddol (Ymgeiswyr ac Asiantau)

3. SUT MAE EICH GWYBODAETH BERSONOL YN CAEL EI CHASGLU

Gall y Cyngor gasglu'r wybodaeth hon mewn sawl ffordd:

- Ffurflenni cais
 - Gwahoddiadau i gofrestru
 - Ffurflenni ymholiadau cartref
 - Ffurflenni cais am bleidlais absennol
- Cymwysiadau cyfrifiadurol
- Pob cais a dderbynnir drwy'r system Idox
- Dros y ffôn
- Trwy e-bost
- Trwy lythyr
- Trwy ymweliad personol â'r Ganolfan Ddinesig
- Drwy ymweliad personol â'ch cyfeiriad cartref yn ystod cyfnod y Canfasio Blynnyddol
- O gofnodion y Cyngor yn unol ag Adran 9A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 sy'n caniatáu mynediad at gofnodion y Cyngor er mwyn helpu i gynnal y gofrestr etholwyr

4. SUT RYDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn ond yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn unol ag Adran 9 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadw cofrestr etholwyr tra bod Adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal canfasio blynnyddol o eiddo.

O dan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001, gellir rhannu eich data â:

- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hawl i'r gofrestr etholiadol (Reg.107) ac mae'n cael ei rannu'n rheolaidd gyda Refeniw a Budd-daliadau ac Archwilio Mewnol
- Mae gan gynghorwyr hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hadran etholiadol (Rh.103)
- Mae gan ASau hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hetholaeth (Rh.103)
- Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i'r gofrestr ar gyfer eu hetholaeth neu ranbarth (Rh.103)
- Mae gan ymgeiswyr etholiad hawl i'r gofrestr ar gyfer y sedd y maent yn ei chystadlu (Rh.108)
- Mae gan swyddfeydd etholaethol gwleidyddol lleol hawl i'r gofrestr ar gyfer yr ardal sy'n cwmpasu eu hetholaeth (Rh.105)
- Mae gan Gyngor Cymuned Bedlinog hawl i'r gofrestr ar gyfer Ward Bedlinog (Rh.107)
- Mae gan blaid wleidyddol gofrestredig neu drydydd parti cydnabyddedig (a chyfranogwyr a ganiateir yn refferenda) hawl i gofrestr lawn (Rh.109)
- Mae gan yr Heddlu hawl i gofrestr lawn (Rh.109)
- Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru hawl i gofrestr lawn (Rh.97)
- Mae gan y Comisiwn Etholiadol hawl i gofrestr lawn (Rh.100)

- Mae gan Gomisiwn Ffiniau Cymru hawl i gofrestr lawn (Rh.101)
- Mae gan Swyddog Canlyniadau etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni hawl i gofrestr lawn (Rh.98)
- Mae gan Asiantaethau Cyfeirio Credyd hawl i gofrestr lawn at ddibenion cynnal gwiriadau credyd ar dalu'r ffi statudol (Rh. 113 a 114)
- Mae gan adrannau'r llywodraeth hawl i brynu'r gofrestr lawn (Rh. 113 a 114)
- Rhaid gwerthu'r gofrestr wedi'i golygu i unrhyw berson sy'n gofyn am gopi (Rh.110)

5. CADW DATA

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y bo angen i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. **Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth yn unol â gofynion statudol a**

Polisi cadw awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'r

- Cofrestrau Etholiadol – 15 mlynedd er mwyn gwirio hawl i gofrestru etholwyr tramor
- Ffurflenni Ymwadiad Cofrestr Etholiadol – 1 flwyddyn
- Dynodwyr Pleidlais Absennol – 5 mlynedd yna wedi'u hadnewyddu neu eu dileu
- Ffurflenni Cofrestru a thystiolaeth o ran oedran a chenedligrwydd – 1 flwyddyn (oes y gofrestr honno)
- Dogfennau etholiad – 1 flwyddyn
- Ffurflenni cyfeiriad cartref yr ymgeisydd mewn etholiad Seneddol – wedi'u dinistrio ar yr 21ain diwrnod ar ôl i'r aelod gael ei ddychwelyd
- Treuliau etholiad yr ymgeisydd - 2 flynedd (ac eithrio treuliau Ymgeisydd Ewropeaidd a Chymunedol sy'n cael eu storio am flwyddyn)

6. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, yn ôl y gyfraith, mae gennych hawl :

- Mynediad a chael copi o'ch data ar gais
- Gofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol newid data anghywir neu anghyflawn
- O dan rai amgylchiadau, gallwch ofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddileu neu roi'r gorau i brosesu'ch data, er enghraifft pan nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu.
- I wybod y cyfnod y bydd y data yn cael ei storio ar ei gyfer
- Yr hawl i gludadwydd data
- Yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg
- Yr hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyllo (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)
- Canlyniadau os byddwch yn methu â darparu data i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol
- Bodolaeth a gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a chanlyniadau hyn i chi

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â'r rheolwr cyfrifol y manylir arno ar frig yr hysbysiad hwn yn ysgrifenedig.

7. DIOGELWCH DATA

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich gwybodaeth bersonol rhag cael ei cholli, ei defnyddio neu ei chyrcu'n ddamweiniol mewn ffordd anawdurdodedig, ei newid neu ei datgelu. Yn ogystal, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r gweithwyr,

asiantau, contractwyr a thrydydd partïon eraill sydd angen gwybod am fusnes. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar ein cyfarwyddiadau, ac maent yn ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd.

Efallai y bydd eich data hefyd yn cael ei rannu gyda:

- Mae gan Wasanaeth y Llysoedd hawl i dderbyn y gofrestr er mwyn galw trigolion ar gyfer Gwasanaeth Rheithgor (Deddf Rheithiau)
- Gellir darparu gwybodaeth bersonol os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon bod y rheolau at ddibenion atal a chanfod troseddau, neu ddal neu erlyn troseddwr wedi'u bodloni.
- I wirio pwy ydych chi, bydd y data rydych chi'n ei ddarparu yn cael ei brosesu gan y Gwasanaeth Digidol Cofrestru Etholiadol Unigol a reolir gan Swyddfa'r Cabinet. Fel rhan o'r broses hon bydd eich data yn cael ei rannu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a chyflenwyr Swyddfa'r Cabinet sy'n broseswyr data ar gyfer y Gwasanaeth Digidol Cofrestru Etholiadol Unigol.

8. GWNEUD CWYN

Rydym wedi penodi Swyddog Diogelu Data (DPO) i oruchwylio cydymffurfiaeth â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar frig yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)	Ffôn: 029 2067 8400
2il Llawr	Ffacs: 029 2067 8399
Tŷ Churchill	E-bost: casework@ico.org.uk
Ffordd Churchill	
Caerdydd	
CF10 2HH	

9. NEWIDIADAU I'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD HWN

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg, a byddwn yn sicrhau bod yr hysbysiad preifatrwydd newydd ar gael i chi pan fyddwn yn gwneud unrhyw ddiweddariadau sylweddol. Efallai y byddwn hefyd yn eich hysbysu mewn ffyrdd eraill o bryd i'w gilydd am brosesu eich gwybodaeth bersonol.